# Mynd i'r afael â diboblogi gwledig

## Trosolwg

Nid yw Cymru ar ei phen ei hun wrth chwilio am ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil diboblogi gwledig. Ledled Ewrop, mae bron dwy ran o dair o ardaloedd gwledig, sy'n cynnwys 40% o boblogaeth Ewrop, yn crebachu (EPSON, 2020). Nid yn unig y mae llawer o gymunedau gwledig yn mynd yn llai o ran niferoedd absoliwt. Maent hefyd yn heneiddio, wrth i bobl iau adael ardal mae'r cyfraddau geni lleol yn gostwng, ac mae cymhareb y preswylwyr o oedran gweithio o gymharu â phreswylwyr sydd wedi ymddeol yn gostwng. Mae rhai lleoedd gwledig hefyd yn denu preswylwyr hŷn ychwanegol gan eu bod yn gyrchfannau i ymddeol iddynt.

Fodd bynnag, nid yw diboblogi yn brofiad sy'n unigryw i ardaloedd gwledig. Gall ardaloedd trefol wynebu heriau tebyg, yn enwedig pan fydd yna gysylltiad cryf wedi bod rhwng eu heconomïau â diwydiant sy'n edwino, neu lle nad ydynt mewn sefyllfa dda i gystadlu mewn marchnadoedd cynyddol fyd-eang. Yn achos rhai gwledydd, mae patrymau lleol yn bwydo i ddarlun mwy o boblogaeth genedlaethol yn heneiddio ac yn gostwng.

I Gymru gyfan, mae [amcanestyniadau poblogaeth] presennol yn rhagfynegi twf cymedrol o ran y boblogaeth yn ystod y ddau ddegawd nesaf. Fodd bynnag, mae'r darlun hwn yn seiliedig ar gynnydd llawer mwy mewn grwpiau oedran hŷn, gostyngiad yn nifer y plant, a nifer y boblogaeth o oedran gweithio yn aros yr un fath. Mae'n debygol hefyd y bydd yna wahaniaethau sylweddol rhwng rhannau gwahanol o Gymru drefol a Chymru wledig, fel y trafodwyd gan Mike Woods mewn papur gwyntyllu cysylltiedig am allfudo gwledig yng Nghymru (2023).

Mae poblogaeth sy'n heneiddio ac yn gostwng yn peri heriau sylweddol am ei bod yn dod â chanlyniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn ei sgil, a'r rheiny'n atgyfnerthu ei gilydd. Mae llai o boblogaeth o oedran gweithio yn effeithio ar y cyflenwad llafur ac yn achosi effeithiau canlyniadol i gyflogwyr a hyfywedd economaidd ehangach ardal benodol. Os bydd busnesau lleol yn cau neu'n adleoli, bydd cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth sy'n weddill yn diflannu. Mae prinder llafur yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, sy'n hanfodol o ran cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio. Gall dirywiad gwasanaethau lleol, yn enwedig os bydd cyfleusterau masnachol a hamdden yn diflannu ar yr un pryd, ddylanwadu ar benderfyniadau pobl iau a theuluoedd i adael. Gall y cydgysylltiad rhwng yr effeithiau hyn greu effaith droellog negyddol (EAG, 2021). Wrth i bobl a busnesau adael ardal benodol, mae'n dod yn fwyfwy anodd naill ai cadw preswylwyr presennol neu ddenu newydd-ddyfodiaid posibl.

## Ymatebion polisi i heriau'n ymwneud â'r boblogaeth

Yng Nghymru, yr Alban a sawl rhan arall o Ewrop, mae awdurdodau lleol, llywodraethau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â sefydliadau a chyllidwyr uwchwladol, gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, wedi bod yn ceisio ymatebion polisi effeithiol i heriau'n ymwneud â'r boblogaeth.

Pan fo llunwyr polisïau yn penderfynu mynd i'r afael â phatrymau cenedlaethol ehangach o ran newid yn y boblogaeth, mae'n bwysig bod

polisïau'n ystyried anghysondeb tueddiadau cenedlaethol. Fel y nodir uchod, bydd tuedd gyffredinol tuag at dwf neu ostyngiad yn aml yn cael ei rhannu'n ddarlun llawer mwy amrywiol ar draws is-setiau o boblogaeth a daearyddiaeth. Ar y lefel leol, mae ardaloedd (trefol a gwledig) yn aml yn amlygu patrymau amrywiol o ran twf, sefydlogrwydd a gostyngiad mwy difrifol neu lai difrifol (EAG 2022). Yng Nghymru, fel y mae Woods yn trafod yn ei bapur gwyntyllu, mae darlun cyffredinol o ataliad mewn poblogaeth wledig yn eithaf amrywiol yn lleol, ac yn dangos gostyngiad cymedrol neu sylweddol mewn sawl ardal, yn ogystal â phoblogaethau mwy bywiog a chynyddol mewn rhai wardiau gwledig, yn enwedig y rhai sy'n agos at gytrefi mwy (2023).

At hynny, hyd yn oed mewn lleoedd sy'n amlygu tueddiadau tebyg, nid yw'r rhesymau sylfaenol, ac felly'r atebion posibl, o reidrwydd yr un fath (Dax a Copus 2022). **Mae yna gonsensws cynyddol, er mwyn gweithio'n dda, bod angen i ymatebion gynnwys rhanddeiliaid lleol ac adeiladu ar ddealltwriaeth agos o'r ddynameg newid leol.** Mae archwilio asedau, heriau a dyheadau lleoedd penodol yn rhan bwysig o hyn. **Mae atebion effeithiol hefyd yn gofyn am fewnbynnau o ran adnoddau, meithrin gallu a fframio polisïau strategol o lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.**

Mae dulliau seiliedig ar leoedd yn cynyddu o ran eu poblogrwydd yn rhan o ymatebion polisi ehangach i bryderon yn ymwneud â phoblogi; fodd bynnag, mae cwestiynau'n parhau ynghylch dod â'r dimensiynau gwahanol hyn ynghyd yn y ffordd orau, a sut olwg fyddai ar lwyddiant. Mae angen mecanweithiau newydd i werthuso effeithiau ymyraethau a mentrau lleol ar eu telerau eu hunain, gan ddeall hefyd sut y gallai'r rhain gyd-fynd â'r nodau a'r canlyniadau a ddymunir mewn perthynas â strategaethau a pholisïau cenedlaethol. Yn y fan yma gall fod yn ddefnyddiol archwilio amrywiaeth o brofiadau a mentrau o rannau eraill o'r DU a thramor, a dysgu ohonynt.

## Safbwynt o'r Alban

Yn y DU, mae'r Alban yn wynebu heriau sylweddol o ran y boblogaeth, yn enwedig, ond nid yn unig, yn ei chymunedau mewn ardaloedd gwledig ac ar ei hynysoedd. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf gan National Records Scotland yn awgrymu y bydd y duedd o ran twf y boblogaeth a ddechreuodd ar ddechrau'r 2000au, ar ei huchaf yn 2028, ac y bydd y niferoedd yn gostwng wedi hynny. Peth pwysig i'w gofio yw bod yr amcanestyniadau hyn hefyd yn dangos **y bydd y materion presennol sy'n ymwneud ag anghydbwysedd yn y boblogaeth yn parhau ac yn gwaethygu, o ran poblogaeth sy'n heneiddio a daearyddiaeth y gostyngiad yn y boblogaeth** (Hopkins a Piras, 2020).

Mae llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol a datblygu ymateb trawsbynciol. Sefydlwyd tasglu poblogaeth rhyng-weinidogol yn 2019, a chyhoeddwyd strategaeth poblogaeth gyntaf yr Alban yn 2021. Mae cyflawni'r strategaeth yn flaenoriaeth barhaus, ac mae disgwyl cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â diboblogi yn ddiweddarach eleni. **Mae'r fframweithiau polisi cenedlaethol hyn yn tynnu ar gynigion a strategaethau polisi ar lefelau lleol a rhanbarthol, ac yn ceisio eu cefnogi,** er enghraifft, menter parthau ailboblogi Confensiwn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd.



*Daw'r ddelwedd o adroddiad ymchwil yr Highlands and Islands Enterprise: My Life in the Highlands and Islands*

Mae'r gwaith hwn, er yn dal i fod yn ei gamau cynnar, yn cynnwys awydd i ddysgu am ddatblygu'r broses o lunio, gweithredu a

gwerthuso polisïau. Mae grŵp cynghori arbenigol annibynnol llywodraeth yr Alban ar fudo a phoblogaeth (EAG), a sefydlwyd yn 2018, yn darparu dadansoddiad, cyngor a myfyrdod beirniadol ar fentrau arfaethedig. Mae cynigion pendant, er enghraifft y cynllun peilot ar gyfer fisas gwledig, wedi'u datblygu trwy ymgynghori ac ymgysylltu ag arbenigwyr academaidd, llywodraeth leol, a rhanddeiliaid eraill.

Mae llywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol hefyd wedi mynegi diddordeb mawr mewn cyd-ddysgu trwy gyfnewid profiadau ac arferion yn rhyngwladol, gan archwilio llwyddiannau a heriau, a meithrin syniadau newydd am yr hyn sy'n gweithio, a'r hyn nad yw'n gweithio. Mae dwy agwedd arwyddocaol ar ddysgu ers sefydlu'r EAG yn ymwneud â'r canlynol: (i) rôl mudo mewn ymatebion polisi i ddiboblogi gwledig, a (ii) gwerth polisïau sy'n seiliedig ar leoedd ar gyfer mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â phoblogi. Mae'r ddwy adran ganlynol yn tynnu'n sylweddol ar waith yr EAG yn y meysydd hyn.

## Rôl mudo

Nid yw'n syndod bod ymatebion polisi i bryderon yn ymwneud â diboblogi yn aml yn cynnwys diddordeb mewn denu pobl newydd i ardaloedd yr effeithir arnynt. Er bod cadw preswylwyr presennol hefyd yn allweddol wrth gwrs, mewn ardaloedd lle mae yna gyfuniad o ddiboblogi a heneiddio sylweddol, **mae mudo weithiau'n cynnig yr unig fodd i gynyddu'r boblogaeth o oedran gweithio yn gyflym**, a hynny i lenwi swyddi gwag mewn gwasanaethau allweddol, cadw busnesau a chyflogwyr lleol, a dechrau unioni'r anghydbwysedd demograffig yn y tymor mwy hirdymor (EAG, 2019).

Serch hynny, **dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rôl y gall mudo ei chwarae, a bod yn realistig, wrth fynd i'r afael â diboblogi.** Mae ymchwil ac adroddiadau EAG wedi pwysleisio'r angen i symud oddi wrth y gobaith y gall newydd-ddyfodiaid ailgyflenwi poblogaethau i nifer 'optimwm' rhagddiffiniedig. Yn lle hynny, **dylid ystyried mudo mewn modd strategol yn rhan o fentrau ehangach i wneud lleoedd yn atyniadol ac yn lleoedd y gall poblogaethau lleol yn eu cyfanrwydd fyw ynddynt** (Pinilla a Sáez, 2021). Lliniaru strategol yw'r enw ar hyn, sef dull sy'n ceisio cynnal hyfywedd economaidd a chymdeithasol cymunedau, a lle byddai canlyniadau'n cael eu gwerthuso o ran llesiant cymunedol yn hytrach na thwf demograffig neu economaidd (EAG 2022).

> **'Nod lliniaru strategol mewn polisïau poblogaethau yw sicrhau bod cymunedau yn parhau i fod yn hyfyw yn economaidd ac yn gymdeithasol. Caiff llwyddiant ei fesur yn bennaf o ran llesiant cymunedol yn hytrach na thwf demograffig neu economaidd'.**
> **(EAG 2022, t. 3)**

Yn yr Alban, mae llunwyr polisïau yn parhau i ystyried mudo yn ysgogiad pwysig i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â'r boblogaeth. Mae mentrau polisi cenedlaethol wedi cynnwys fisas gwaith ôl-astudio Fresh Talent yr Alban, a lansiwyd yn 2004, pennod ar fudo yn strategaeth poblogaeth 2021, a'r cynllun peilot ar gyfer fisas gwledig a gyhoeddwyd yn 2022. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi ceisio denu preswylwyr newydd neu breswylwyr sy'n dychwelyd yn rhan o'u strategaethau poblogaeth eu hunain. Er enghraifft, sefydlodd Argyll a Bute gronfa adsefydlu gwledig rhwng 2016 a 2018, er mwyn annog pobl a busnesau i adleoli i'r ardal. Mae Cyngor Shetland wedi sefydlu gwefan a gwasanaeth marchnata o'r enw 'Promote Shetland' sy'n tynnu sylw at ddigwyddiadau diwylliannol, bywyd gwyllt a natur yr ardal, a sut beth yw bywyd preswylwyr Ynysoedd Shetland.

Mae mentrau polisi ar lefelau lleol a chenedlaethol yn cael eu cymhlethu gan

ddosbarthiad ysgogiadau polisi ac adnoddau ar draws sawl lefel o lywodraeth. Gan fod polisi mudo yn fater a gedwir yn ôl i lywodraeth y DU, rhaid i lywodraethau datganoledig cenedlaethol a lleol ganolbwyntio eu hymdrechion ar feysydd polisi eraill yn rhan o ddull lliniaru strategol. Gall hyn ddigwydd ochr yn ochr â lobïo dros newid i wneud i system fewnfudo'r DU ddiwallu anghenion y boblogaeth yn well. Gall meysydd polisi sydd o dan bwerau datganoledig a/neu leol, megis **tai, cludiant, cymorth blynyddoedd cynnar, yn ogystal â mentrau marchnata a chymorth integreiddio chwarae rhan sylweddol wrth gadw a denu preswylwyr.**

Mae ymchwil a wnaed gan Highlands and Islands Enterprise yn 2022, er enghraifft, yn rhoi cipolwg pwysig ar brofiadau preswylwyr presennol o wasanaethau lleol, cyfleoedd gwaith, tai a seilwaith, yn ogystal â'u hagweddau at newydd-ddyfodiaid a'u bwriadau cyfredol eu hunain ynghylch symud yn y dyfodol neu aros am gyfnodau hwy. Dangosodd yr arolwg fod balchder yn yr ardal a chanfyddiad o well ansawdd bywyd yn ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i aros mewn ardal neu symud i ardal. Nodwyd bod tai, cyfleoedd gwaith, a chefnogi busnesau a chrefftwyr lleol yn brif flaenoriaethau er mwyn i gymunedau ffynnu. Roedd yna arlliw trefol/gwledig i'r canfyddiadau hyn: mewn trefi, y prif flaenoriaethau oedd cyfleoedd gwaith, swyddi sy'n talu'n well a gweithgareddau cymdeithasol; mewn ardaloedd gwledig, ystyrid mai'r pethau pwysicaf oedd tai, cysylltedd digidol, rhagor o bobl o oedran gweithio yn symud i'r ardal, a chysylltiadau cludiant.

Gall y math hwn o gipolwg fod yn llinell sylfaen ar gyfer deall asedau a heriau lleol a'r modd y maent yn ymwneud â newid yn y boblogaeth. Gall astudiaethau a chymariaethau rhyngwladol hefyd roi cipolwg defnyddiol ar yr hyn sy'n gwneud rhai lleoedd gwledig yn fwy llwyddiannus nag eraill o ran denu a chadw poblogaeth (Kull et al., 2020).

## Ai dulliau seiliedig ar leoedd yw'r ateb?

Mae'r ymatebion a'r mentrau aml-haenog a grybwyllir uchod yn cyd-fynd â newid ehangach mewn syniadau polisi o ran ymatebion effeithiol i ddatblygu gwledig a phryderon yn ymwneud â phoblogi. Mae fframweithiau polisi mwy diweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal â chan lywodraethau cenedlaethol ac is-genedlaethol ledled Ewrop, wedi pwysleisio'r **angen am ddulliau seiliedig ar leoedd, blaenoriaethu llesiant, mynediad at wasanaethau sylfaenol, a datblygu gwledig mwy cynhwysol** (Dax a Copus, 2022). Mae hyn yn cyferbynnu â dulliau sy'n canolbwyntio ar ymgais i sicrhau twf economaidd a chorffori cystadleuol i farchnadoedd byd-eang a oedd yn dominyddu'r syniadau polisi ar ddechrau'r 21 Ganrif.

Yn sicr, mae materion strwythurol ehangach, sef canlyniadau polisïau a thueddiadau cenedlaethol, yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o lunio cyd-destunau lleol a chynhyrchu cyfleoedd a heriau anghyson. Serch hynny, **mae prosesau economaidd a chymdeithasol sylfaenol yn cyfuno â hanesion mudo lleol, adnoddau naturiol, asedau diwylliannol a dyheadau, a hynny mewn ffyrdd amrywiol, ac yn galw am atebion wedi'u teilwra yn hytrach nag atebion cyffredinol.** Mae safbwynt seiliedig ar le yn dechrau trwy gydnabod bod nodweddion, hanesion ac adnoddau penodol lleoliadau arbennig yn bwysig.

Ni ddylid cymryd bod hyn yn golygu na ellir dysgu ar draws lleoedd, nad oes yna drosglwyddadwyedd o ran ymyraethau effeithiol, ac nad oes yna gydlynu na fframio strategol mewn perthynas ag atebion seiliedig ar leoedd. Yn ei adroddiad diweddaraf, aeth grŵp cynghori arbenigol annibynnol llywodraeth yr Alban ar fudo a phoblogaeth (EAG) ati i archwilio enghreifftiau o fframweithiau polisi cenedlaethol gyda'r nod o gefnogi ymatebion seiliedig ar leoedd i heriau'n ymwneud â phoblogaeth pedair gwlad Ewropeaidd (Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Sbaen) a Chanada (EAG 2022). Mae dysgu

rhyngwladol o'r fath yn ddefnyddiol, ond daw â rhybudd bod yn rhaid ystyried cyd-destunau economaidd, cymdeithasol a pholisi cenhedloedd a rhanbarthau gwahanol.

> **Mae safbwynt seiliedig ar le yn dechrau trwy gydnabod bod nodweddion, hanesion ac adnoddau penodol lleoliadau arbennig yn bwysig.**

Mae'r adroddiad yn awgrymu nifer o wersi eang y gellir eu dysgu. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dulliau targedu gofodol gwahanol;
- Pwysigrwydd cydlyniad;
- Yr angen i fynd y tu hwnt i strategaethau a bwriadau polisi cyffredinol;
- Yr angen i sicrhau eglurder wrth i nodau polisi newid; a
- Rôl hanfodol cyfranogiad cymunedol wrth lunio polisïau a'u rhoi ar waith.

Gan fynd ar drywydd y pwynt olaf, mae gweddill y papur hwn yn archwilio dulliau seiliedig ar leoedd o safbwynt ymyraethau a mentrau lleol, gan edrych i weld sut y cafodd y rhain eu cynllunio a pha fframweithiau gwerthuso sy'n bodoli neu y gellid eu datblygu.

## Cynllunio a gwerthuso ymyraethau lleol

Ledled Ewrop mae llywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a bwrdeistrefol wedi bod yn chwilio am ffyrdd o gysylltu fframweithiau polisi ehangach ag ymyraethau a chanlyniadau lleol. Mae hyn yn gofyn am brosesau, adnoddau a rhwydweithiau diriaethol, i gydgysylltu, cefnogi a rhannu dysgu rhwng prosiectau, yn ogystal ag i ddeall y modd y maent yn cyfrannu at nodau polisi ehangach a chanlyniadau mesuradwy. **Gall modelau a ddatblygwyd mewn cyd-destunau eraill sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at heriau penodol fod yn addysgiadol, ond bydd angen eu haddasu wrth ddatblygu dull a allai weithio'n dda i Gymru.**

Mae prosiect REGINA a ariennir gan yr UE, dan arweiniad Nordregio, wedi canolbwyntio ar anghenion cymunedau gwledig anghysbell sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol a demograffig sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o agor neu gau diwydiannau sy'n seiliedig ar adnoddau naturiol. Mae'r prosiect wedi datblygu proses chwe cham i gefnogi awdurdodau lleol a chymunedau i wneud y canlynol:

- Nodi heriau a chyfleoedd craidd;
- Cynhyrchu amcanestyniadau ar gyfer newid yn y boblogaeth ac yn y farchnad lafur;
- Asesu'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd ar lefel gymunedol; a
- Datblygu strategaethau a pholisïau sy'n sicrhau'r buddion lleol gorau posibl ac yn lleihau gwrthdaro posibl.

Mae'r model yn cynnwys gwybodaeth am fapio ymyraethau lleol i strwythurau llywodraethu ehangach, fframweithiau polisi a ffrydiau cyllido posibl. Mae hefyd yn cynnwys pecyn cymorth manwl ar gyfer rheoli cynllunio cyfranogol lleol a monitro ymyraethau. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu prosiectau lleol amrywiol gyda chymorth amrywiaeth o randdeiliaid lleol, awdurdodau bwrdeistrefol, a phartneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae bwrdeistref Storuman, yng ngorllewin Sweden, er enghraifft, wedi defnyddio'r model rhagwelediad demograffig i ddeall rhai o'r heriau y mae'n eu hwynebu. Datblygwyd menter i annog mudo i'r ardal sy'n cynnwys tudalen we 'symudwch i Storuman'. Mae'r dudalen hon yn rhoi dolenni i swyddi gwag, yn ogystal â gwybodaeth am gael mynediad at lety, addysg a gofal plant, a chyfleoedd addysgol, diwylliannol a hamdden. Mae yna raglen llysgenhadon sy'n cynnwys straeon y rhai sydd wedi symud yn llwyddiannus, ac mae mwy na 60 o straeon wedi ymddangos ar y wefan ers i'r rhaglen ddechrau ym mis Awst 2020. Mae'r rhaglen llysgenhadon hefyd yn darparu pwyntiau cyswllt a chefnogaeth cyfeillio i newydd-ddyfodiaid.

**Mae monitro a gwerthuso ymyraethau polisi a phrosiectau lleol, yn enwedig o ran y modd y maent yn bodloni amcanion ehangach strategaethau a fframweithiau polisi cenedlaethol, yn parhau i fod yn heriol.** Mae'r [cynllun rheoli effaith gymdeithasol](#) a ddatblygwyd gan brosiect REGINA yn rhagweld proses fonitro barhaus ac ailadroddol, yn seiliedig ar yr un model cyfranogol a ddefnyddiwyd yn y broses ddylunio gychwynnol.

Rhagwelir bod hon yn broses atblygol i'w llunio yn rhan o'r cynllun gwreiddiol. Felly, cytunir ar y canlyniadau i gael eu monitro trwy'r broses cynllunio gyfranogol, ac fe'u hasesir trwy gynnal arolwg o gyfranogwyr uniongyrchol a grwpiau ehangach o randdeiliaid lleol. Rhennir y canlyniadau â rhanddeiliaid ar bob lefel yn ogystal â'r gymuned ehangach o drigolion bwrdeistrefol, ac wedi hynny byddant yn bwydo yn ôl i brosesau cynllunio pellach. Mae'n llai clir pa fecanweithiau sy'n goruchwylio'r modd y mae canlyniadau o'r fath yn cyd-fynd â fframweithiau a nodau polisi ehangach.

Yn Sbaen, dyrannodd llywodraeth ranbarthol Aragon gyllid EU-LEADER i ['Pueblos Vivos'](#) yn rhan o'i Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Llwyfan yw Pueblos Vivos sy'n dwyn ynghyd prosiectau, camau gweithredu a mentrau lleol a gynlluniwyd i wrthsefyll diboblogi, a denu preswylwyr newydd i ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn amrywio o brosiectau i wella cysylltiadau cludiant a mynediad digidol ledled y rhanbarth, i fentrau ar raddfa lai dan arweiniad grwpiau gweithredu lleol sy'n darparu croeso, neu'n paru'r rheiny sy'n dymuno symud â chyfleoedd am dai a gwaith.

Mae llwyfan Pueblos Vivos wedi datblygu fframwaith gwerthuso sy'n sgorio pob prosiect o ran ei effeithiau mewn perthynas â'r canlynol:

- Lleihau diboblogi
- Ysgogi gweithgarwch economaidd
- Creu cyflogaeth
- Gwella llesiant ac ansawdd bywyd
- Meithrin ymwybyddiaeth o'r frwydr yn erbyn diboblogi

Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae pob un o'r agweddau hyn yn cael ei hasesu'n ymarferol, p'un a oes yna broses hunanasesu neu set o feini prawf ansoddol a/neu feintiol i'w bodloni.

Nid oes yna ateb syml i'r modd y dylid datblygu prosesau gwerthuso cadarn. Efallai mai dewis amgen fyddai meddwl am werthuso o chwith. Dechreuodd prosiect Nordregio gwahanol a oedd yn astudio bwrdeistrefi gwledig 'atyniadol' yn y rhanbarth Nordig trwy nodi 14 o astudiaethau achos yn ymwneud â bwrdeistrefi llwyddiannus, a gweithio yn ôl o'r fan honno i geisio deall yr hyn a oedd yn eu gwneud yn fwy atyniadol i bobl ac o ran swyddi (Kull et al. 2020). Mesurwyd llwyddiant yn y broses o ddethol bwrdeistrefi i fod yn astudiaethau achos, yn seiliedig ar ddadansoddiadau meintiol o dueddiadau cadarnhaol mewn poblogaethau a marchnadoedd llafur. Gan weithio'n ôl o'r fan hon, ceisiodd ymchwilwyr ddeall pa gyfuniadau o nodweddion lleol, polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a phrosiectau cymdeithasol neu ddiwylliannol lleol a allai fod wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn.

Pa ddull bynnag a ddefnyddir, erys pwynt allweddol, sef bod angen i **werthusiadau gyd-fynd yn dda â theori sylfaenol newid, a bod ar hyn angen i bolisi poblogaeth ddechrau o nodau realistig wedi'u diffinio'n dda.** Os yw'r nodau hyn yn symud i'r meini prawf mwy ansoddol sy'n gysylltiedig â lliniaru strategol fel yr amlinellir uchod, yna dylai gwerthusiadau hefyd alinio â'r rhain (Dax a Copus 2022).

## Casgliadau

Mae mynd i'r afael â diboblogi gwledig yn her a rennir ar draws llawer o wledydd, gan gynnwys Cymru. Ac eto, nid yw cyffredinedd yr her yn trosi'n set hawdd o atebion 'parod'. **Bydd angen i bolisïau effeithiol fod yn effro i ddynameg gymhleth llywodraethu a llunio polisïau ar sawl lefel, yn ogystal â strwythurau economaidd, a hanesion cymdeithasol a diwylliannol, y mae pob un ohonynt yn amrywio rhwng cyd-destunau cenedlaethol.** Felly, er bod enghreifftiau o wledydd eraill yn

ddefnyddiol, mae hefyd yn hanfodol cofio sut y mae cyd-destunau'n wahanol. Yng nghyd-destun Cymru (a'r Alban) mae hyn yn golygu, er enghraifft, meddwl **beth yw'r berthynas rhwng polisïau ac adnoddau** (gan gynnwys y mecanweithiau a ddefnyddir i ddosbarthu adnoddau) a’r **modd y gallai rhannu pŵer rhwng llywodraethau datganoledig a llywodraeth y DU, a chydag awdurdodau lleol, hwyluso neu greu rhwystrau a fydd yn atal syniadau a ddatblygwyd mewn mannau eraill rhag cael eu rhoi ar waith**.

Gan symud i lefel fwy lleol, bydd angen i ymyraethau sy'n seiliedig ar leoedd ystyried adnoddau a dynameg wirioneddol lleoedd gwahanol, a gweithio gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys **meddwl am union gyfluniad cyfranogwyr** (ar draws lefelau gwahanol y llywodraeth, ond hefyd rhanddeiliaid cymunedol lleol, cyrff preifat a thrydydd sector a phartneriaid eraill) a ddylai fod yn rhan o’r broses. Mae hyn yn gofyn **am broses glir ac offer hygyrch ar gyfer deall a chyfleu canlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol yr heriau a wynebir**. Mae'n golygu datblygu set o ymyraethau sy’n cynnwys **ymrwymiad, capasiti ac adnoddau lleol digonol i fynd i'r afael â'r rhain**, ynghyd â chanlyniadau realistig yn rhan o’r prosesau cynllunio a gwerthuso.

## Cyfeirnodau


Dax, T. a Copus, A. (2022) European Rural Demographic Strategies: Foreshadowing Post-Lisbon Rural Development Policy? World 2022, 3, 938–956. https://doi.org/10.3390/world3040053

EAG (2019) Immigration policy and demographic change in Scotland: learning from Australia, Canada and continental Europe – gov.scot (www.gov.scot)

EAG (2021) Designing a pilot remote and rural migration scheme: analysis and policy options – gov.scot (www.gov.scot)

EAG (2022) Place-based policy approaches to population challenges: Lessons for Scotland – gov.scot (www.gov.scot)

ESPON (2020) ESCAPE (European Shrinking Rural Areas: Challenges, Actions and Perspectives for Territorial Governance) Adroddiad Terfynol. https://www.espon.eu/escape

Hopkins, J. a Piras, S. (2020) Population projections and an introduction to economic-demographic foresight for Scotland’s sparsely populated areas (2018-43), Briff Ymchwil, James Hutton Institute rd341briefprojectionsandforesightintro.pdf (hutton.ac.uk)

Kull, M., Refsgaard, K., Sigurjonsdottir, H., Bogason, A., Meijer, M., Sanchez-Gassen, N. a Turunen, E. (2020) Attractive rural municipalities in the Nordic countries, adroddiad Nordregio. Attractive Rural Municipalities in the Nordic countries (norden.org)

Pinilla, V. a Sáez, L.A. (2021) What do public policies teach us about rural depopulation: The case study of Spain. Eur. Countrys. Cyf. 13, Rhifyn 2, tt. 330-351. What Do Public Policies Teach us About Rural Depopulation: The Case Study of Spain (sciendo.com)

Woods, M. (2023) Rural Youth Out-Migration and Population Change in Wales, Papur Gwyntyllu CPCC. International approaches to population ageing and decline | WCPP


## Gwybodaeth am yr awdur


Mae Rebecca Kay yn Uwch-ymchwilydd i Migration Policy Scotland, sef sefydliad polisi annibynnol sy'n gweithio i wella'r rhagolygon ar gyfer system fudo fwy cyfiawn yn yr Alban a'r DU. Rydym yn cynnig atebion egwyddorol, effeithiol i wynebu'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil mudo. Hi hefyd yw cadeirydd grŵp cynghori arbenigol annibynnol llywodraeth yr Alban ar fudo a phoblogaeth ac mae’n

Athro yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol ym Mhrifysgol Glasgow, lle mae wedi gwneud gwaith ymchwil ansoddol i brofiadau mudwyr mewn ardaloedd gwledig a threfol yn yr Alban.

Mae'r Papur Gwyntyllu hwn yn tynnu ar waith ymchwil i 'The role of migration in strategic responses to rural depopulation – Mapping policy interventions and stakeholder engagement at International, National, Regional and Local levels' a wnaed gan Brifysgol Glasgow a Migration Policy Scotland, ac a ariannwyd gan Wobr MewnweledIad y Scottish Council on Global Affairs.

## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau o ran polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Amanda Hill-Dixon**

+44 (0)29 2087 5345

Amanda.hill-dixon@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government